Museums Libraries & Archives

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL
Adran 3 PARTNERIAETHAU: *Llunio partneriaethau dysgu creadigol*

Ydych chi a'ch cydweithwyr neu bartneriaid wedi defnyddio'r rhestr wirio fer i gael trosolwg o'ch sefydliad?

Yn awr defnyddiwch y rhestr wirio fanwl hon i archwilio'ch gwaith yn fanylach. Bydd y rhestr wirio hefyd yn eich cynorthwyo i ddarparu tystiolaeth sy'n cefnogi'ch honiadau.

Mae gan yr egwyddor allweddol PARTNERIAETHAU 3 elfen ac mae gan bob un o'r rhain ddwy adran

- **Cwestiynau i ganfod i ba raddau yr ydych yn dilyn arferion gorau yn y maes hwn**
- **Cwestiynau i ganfod a oes gennych chi dystiolaeth o ganlyniadau ac effaith y prosesau hyn**

Awgrymwn eich bod yn canolbwyntio ar yr adran hon ac yn gweithio trwyddi fel tîm yn fanwl, cyn symud ymlaen i gynllunio gweithredu. Ceisiwch fod mor onest â phosibl yn eich atebion.

SYLWER: NI FYDD YR HOLL ENGHREIFFTIAU O DYSTIOLAETH YN BERTHNASOL I BOB AMGUEDDFA, ARCHIF NEU LYFRGELL

ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL
Adran 3 PARTNERIAETHAU: *Llunio partneriaethau dysgu creadigol*

3.1 Ydych chi'n pennu partneriaid posibl a gwerthuso manteision gweithio mewn partneriaeth i gefnogi dysgu?

Camau Gweithredu		***Ydym***	***Wedi dechrau***	***Na***
3.1.1 Ydych chi'n chwilio'n egnïol am bartneriaid wrth ddatblygu cynlluniau newydd ac yn dod o hyd i ffyrdd o ddatblygu a defnyddio sgiliau a phrofiadau pobl eraill?	chwilio'n egnïol am bartneriaid			
	Darganfod ffyrdd i ddatblygu eu sgiliau a'u profiadau			
3.1.2 Ydych chi'n annog partneriaid i ddod yn eiriolwyr dros eich gwaith a chynorthwyo i greu pont i ymestyn gwasanaethau ar y safle ac oddi ar y safle?	Eiriolwyr			
	Gwasanaethau ar y safle			
	Gwasanaethau oddi ar y safle			
3.1.3 Ydych chi'n adolygu a gwerthuso eich trefniadau gwaith yn rheolaidd, a'u perthnasedd parhaus mewn perthynas â phartneriaethau a phrosiectau?				

Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da	*Ydym*	*Na*	*Meysydd i'w Gwella*
Ydych chi: ➢ wedi canfod ystod o bartneriaid y gallech gydweithio'n effeithiol â hwy? ➢ wedi canfod sut y mae gwaith sefydliadau partner yn ychwanegu gwerth at eich gwaith eich hun? ➢ wedi hyrwyddo'r manteision a gaiff defnyddwyr o weithio mewn partneriaeth? ➢ wedi creu cysylltiadau gyda grwpiau o ddefnyddwyr newydd neu anaml (partneriaid posibl) sy'n cynrychioli'r gymuned ddysgu yn fwy eang (e.e. colegau, grwpiau cymunedol, grwpiau diddordeb arbenigol)? ➢ wedi adolygu, cofnodi a chadarnhau manteision gweithio gyda phartneriaid a'r gwersi a ddysgwyd? ➢ yn meddu ar strategaethau fel y gall partneriaid roi eu barn ar berthnasedd ac effaith gwasanaethau? ➢ wedi gweithredu ar benderfyniadau i dynnu'n ôl o bartneriaethau anghynhyrchiol? *Ydych chi'n gwybod a yw'r staff:* ➢ yn medru disgrifio manteision gweithio mewn partneriaeth wrth ddatblygu eu sgiliau, eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth eu hunain? ➢ wedi cymryd rhan mewn cyfnewid gwybodaeth a sgiliau i ehangu eu dealltwriaeth a rhannu arfer da? *Ydych chi'n gwybod a yw partneriaid:* ➢ yn fodlon ar y trefniadau gwaith a'ch cyfraniad chi i brosiectau ➢ yn disgrifio'r gwerth ychwanegol i'w prosiectau ➢ yn dweud beth maent wedi'i ennill wrth weithio gyda chi?			

ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL
Adran 3 PARTNERIAETHAU: *Llunio partneriaethau dysgu creadigol*

3.2 Ydych chi'n gweithio gyda phartneriaid i gynllunio a datblygu cyfleoedd dysgu?

Camau Gweithredu		***Ydym***	***Wedi dechrau***	***Na***
3.2.1 Ydych chi'n cydweithio â phartneriaid i sicrhau adnoddau i ddatblygu cynlluniau cydweithredol sy'n estyn cyfleoedd i ystod eang o ddefnyddwyr?				
3.2.2 Ydych chi'n gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo cyfleoedd dysgu a mynediad i ddefnyddwyr newydd?	Hyrwyddo cyfleoedd			
	Mynediad i ddefnyddwyr newydd			
3.2.3 Ydych chi'n defnyddio'ch sgiliau, eich adnoddau a'ch casgliadau i ychwanegu gwerth at fentrau dysgu pobl eraill[1]?				

[1] Megis grwpiau atgofion, clybiau ar ôl ysgol, rhaglenni adfer cymdeithasol, ymddiriedolaethau iechyd, asiantaethau hyfforddi.

Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da	*Ydym*	*Na*	*Meysydd i'w Gwella*
Ydych chi: ➢ wedi sicrhau cyllid ychwanegol i weithio mewn partneriaeth? ➢ wedi datblygu cynlluniau cydweithredol sy'n ymestyn a gwella cyfleoedd i ddysgu? ➢ wedi cynnwys cymunedau mewn prosiectau dysgu drwy bartneriaethau? ➢ wedi cynnal ymchwil ar y cyd i gynulleidfaoedd fel sail i ddatblygu gwasanaethau newydd? *Ydych chi'n gwybod a yw defnyddwyr:* ➢ yn darganfod cyfleoedd dysgu eraill o ganlyniad i fentrau partneriaeth? ➢ yn dweud eu bod wedi cael budd o'r gwasanaethau hyn, mynediad at sgiliau, adnoddau, casgliadau a chyfleoedd dysgu?			

ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL
Adran 3 PARTNERIAETHAU: *Llunio partneriaethau dysgu creadigol*

3.3 Ydych chi'n gwahodd cyfraniadau o'r tu allan i'r amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell i ehangu amrediad ac apêl cyfleoedd dysgu?

Camau Gweithredu		***Ydym***	***Wedi dechrau***	***Na***
3.3.1 Ydych chi'n cynyddu'r amrediad o bobl sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau drwy wahanol raglenni[2]?				
3.3.2 Ydych chi'n dod â chyfranwyr allanol i mewn i weithio gyda'r amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell ac i wella'r profiad dysgu i ddefnyddwyr[3]?	Gweithio gyda			
	Gwella profiadau dysgu			

[2] e.e. gwirfoddolwyr, myfyrwyr ar brofiad gwaith, grwpiau cyfeillion, myfyrwyr, grwpiau cymunedol, llyfrgellwyr dan hyfforddiant a defnyddwyr eraill gan gynnwys defnyddwyr o dramor.
[3] Gall cyfrannwyr allanol gynnwys ysgrifenwyr, gweithwyr ieuenctid, arlunwyr, dawnswyr, arbenigwyr TG.

Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da	*Ydym*	*Na*	*Meysydd i'w Gwella*
Ydych chi wedi: ➢ cynnwys ystod ehangach o bobl yng ngwaith eich amgueddfa, eich archif neu'ch llyfrgell? ➢ gweithredu i sicrhau bod oedran, proffil economaidd a diwylliannol y bobl hyn yn cynrychioli'r gymuned yn deg? ➢ eu cefnogi gyda hyfforddiant a datblygu? *Ydy'r staff yn medru:* ➢ disgrifio'r effaith a gafodd y bobl allanol hyn ar ddatblygu cyfleoedd dysgu i ddefnyddwyr, ac ar eu sgiliau eu hunain? *Ydych chi'n gwybod a yw defnyddwyr:* ➢ yn ennill persbectifau, dealltwriaeth a sgiliau newydd? ➢ yn ymateb yn gadarnhaol i'r ystod a'r amrywiaeth o gyfleoedd a ddatblygwyd mewn partneriaeth? *Ydy eich rhaglenni gwirfoddoli a phrofiad gwaith yn canolbwyntio ar:* ➢ ddatblygu sgiliau? ➢ gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth? ➢ magu hyder? ➢ cyfleoedd cymdeithasol? ➢ menter a chyflogadwyedd?			